



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 483 (Cy.69)

2003 No. 483 (W.69)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Rheoli Clefydau
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003**

**The Disease Control (Interim
Measures) (Wales) Order 2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

This Order revokes and replaces the Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002.

Mae'n darparu na chaiff gwartheg, ceirw, geifr, moch a defaid eu symud heb drwydded, ac yn darparu na chaiff yr anifeiliaid hyn (ac eithrio ceirw) eu symud o safle os symudwyd gwartheg, geifr neu ddefaid i'r safle hwnnw yn ystod y 6 diwrnod blaenorol, neu os symudwyd moch i'r safle yn ystod yr 20 diwrnod blaenorol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gofynion hyn (erthygl 3 ac Atodlenni 1 a 2).

It provides that cattle, deer, goats, pigs and sheep may not be moved without a licence, and provides that these animals (with the exception of deer) may not be moved from premises if cattle, goats or sheep have been moved on to those premises in the previous 6 days, or if pigs have been moved on in the previous 20 days. It also provides for exceptions from these requirements (article 3 and Schedules 1 and 2).

Mae'n rheoli symud anifeiliaid i ladd-dy (erthygl 4) ac yn darparu ar gyfer cysylltu setiau o safleoedd â'i gilydd yn grwpiau meddiannaeth unigol (erthygl 5).

It controls movement of animals to slaughterhouses (article 4) and provides for sets of premises to be linked together as sole occupancy groups (article 5).

Mae'n gwneud darpariaethau ar gyfer trwyddedau, caniatadau ac awdurdodiadau, ac yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno hysbysiadau sy'n golygu na all safle neu bobl a enwir weithredu o dan drwydded gyffredinol (erthygl 6 i 12).

It makes provisions for licences, permits and authorisations, and empowers the National Assembly for Wales and the Secretary of State to serve notices removing individual premises or people from operating under a general licence (articles 6 to 12).

Mae'n darparu ar gyfer diheintio cyfryngau cludo (erthygl 13).

It provides for disinfection of vehicles (article 13).

Mae'n darparu ar gyfer newid meddiannaeth safle yr effeithir arno gan y Gorchymyn (erthygl 14).

It provides for change of occupation of premises affected by the Order (article 14).

Yr awdurdod lleol sy'n ei orfodi (erthygl 15).

It is to be enforced by the local authority (article 15).

Mae methu cydymffurfio â'r Gorchymyn yn

Breach of the Order is an offence under section 73 of

dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac mae'r gosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Bydd effaith y Gorchymyn hwn yr dod i ben ar 1 Awst 2003.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

This Order will cease to have effect on 1st August 2003.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

2003 Rhif 483 (Cy.69)**2003 No. 483 (W.69)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Rheoli Clefydau
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003****The Disease Control (Interim
Measures) (Wales) Order 2003***Wedi'i wneud* 3 Mawrth 2003
Yn dod i rym 4 Mawrth 2003*Made* 3rd March 2003
Coming into force 4th March 2003

TREFN YR ERTHYGLAU

ARRANGEMENT OF ARTICLES

1. Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben
2. Dehongli
3. Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid
4. Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid i ladd-dy
5. Grwpiau meddiannaeth unigol
6. Trwyddedau, caniatadau ac awdurdodiadau
7. Trwyddedau a ddyroddir yn yr Alban neu yn Lloegr
8. Hysbysiadau sy'n gwahardd symud o dan drwydded gyffredinol
9. Trwyddedau penodol
10. Trwyddedau cyffredinol
11. Copïau o drwyddedau
12. Cydymffurfio â thrwyddedau ac yn y blaen
13. Glanhau a diheintio
14. Newid meddiannaeth safleoedd
15. Gorfodi
16. Dirymu

1. Title, extent, commencement and cessation
2. Interpretation
3. Restrictions on the movement of animals
4. Restrictions on movements to slaughterhouses
5. Sole occupancy groups
6. Licences, permits and authorisations
7. Licences issued in Scotland or England
8. Notices prohibiting movement under a general licence
9. Specific licences
10. General licences
11. Copies of licences
12. Compliance with licences, etc.
13. Cleansing and disinfection
14. Change of occupation of premises
15. Enforcement
16. Revocations

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Symud o safleoedd a ganateir yn ystod y cyfnod
segurMovements off premises which are permitted
during the standstill period

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

Symud i safleoedd nad ydynt yn sbarduno'r cyfnod
segurMovements on to premises that do not trigger the
standstill period

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8(1) a 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben

1. Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003; mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru, mae'n dod i rym ar 4 Mawrth a bydd ei effaith yn dod i ben ar 1 Awst 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn-

"ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ac eithrio buail a iacod), ceirw, geifr, moch a defaid;

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle a ddefnyddir ar gyfer derbyn, yn y tymor byr, anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall (ond nid yw'n cynnwys marchnad neu rywle arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthiant neu fasnach anifeiliaid oni fwriedir i'r holl anifeiliaid sydd yno gael eu cigyddu yn syth);

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros anifeiliaid, hyd yn oed dros dro ac, at ddibenion erthygl 8(2)(a) mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n cludo'r anifeiliaid;

ystyr "cyfnod segur" ("*standstill period*") yw cyfnod pan na cheir symud anifeiliaid oddi ar safle oherwydd darpariaethau erthygl 3(1)(b);

mae i "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yr ystyr a briodolir iddo gan erthygl 5;

mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(b);

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw cymrawd neu aelod o Goleg Brenhinol y Milfeddygon;

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 7, 8(1) and 83 of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order:

Title, application, commencement and cessation

1. This Order may be cited as the Disease Control (Interim Measures) (Wales) Order 2003; it applies in relation to Wales, comes into force on 4th March and ceases to have effect on 1st August 2003.

Interpretation

2. In this Order -

"animals" ("*anifeiliaid*") means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, pigs and sheep;

"collecting centre" ("*canolfan gasglu*") means premises used for the intermediate reception of animals intended to be moved elsewhere (but does not include a market or other place used for the sale or trading of animals unless all the animals there are intended for immediate slaughter);

"keeper" ("*ceidwad*") means any person having care and control of animals even on a temporary basis and includes, for the purposes of article 8(2)(a), any person transporting the animals;

"land" ("*tir*") includes common or unenclosed land;

"premises" ("*safle*") includes land, with or without buildings;

"sole occupancy group" ("*grŵp meddiannaeth unigol*") has the meaning assigned by article 5;

"veterinary surgeon" ("*milfeddyg*") means a fellow or member of the Royal College of Veterinary Surgeons;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") has the meaning it is given in the Fresh Meat (Hygiene and Inspection) Regulations 1995(b);

"standstill period" ("*cyfnod segur*") means a

(a) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S. 1999/3141). Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(b) O.S. 1995/539 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2002/129 (Cy.17).

(a) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672). The joint functions of "the Ministers" exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) S. I. 1995/539 as last amended by S. I. 2002/129 (W.17).

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys tir comin neu dir heb ei amgáu; ac

yn achos geifr mae "trinaeth filfeddygol" ("*veterinary treatment*") yn cynnwys casglu semen.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid

3.-(1) Mae gwaharddiad ar symud anifail o unrhyw safle-

- (a) oni symudir yr anifail o dan awdurdod trwydded a ddyroddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd; a
- (b) ond nid os na symudwyd defaid, geifr neu wartheg i'r safle hwnnw yn ystod y 6 diwrnod blaenorol, ac os na symudwyd moch i'r safle hwnnw yn ystod yr 20 diwrnod blaenorol ("y cyfnod segur").

(2) Er gwaethaf paragraff (1), ceir symud anifeiliaid o'r safle yn ystod y cyfnod segur-

- (a) os yw'r symud yn un a bennir yn Atodlen 1, neu
- (b) os dyroddwyd trwydded sy'n datgymhwysu'r cyfnod segur gan arolygydd milfeddygol.

(3) Ni chaiff y cyfnod segur ei sbarduno gan symud anifail i safle os yw'r symud yn un a bennir yn Atodlen 2.

(4) Nid yw'r gofyniad am drwydded ym mharagraff (1)(a) yn gymwys i unrhyw symud a awdurdodir gan drwydded o dan erthygl 10 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(a) (trwyddedau'n ymwneud â moch anwes).

(5) Nid yw gofynion paragraff (1) yn gymwys i symud-

- (a) sydd wedi'i drwyddedu gan drwydded a roddwyd o dan Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau 1983(b), neu
- (b) i unrhyw sŵ a drwyddedwyd o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981 neu oddi yno (c).

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid i ladd-dy ac oddi yno

4. Gwaherddir i unrhyw berson-

- (a) O.S. 2002/2303 (Cy.228) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/170 (Cy.30).
- (b) O.S. 1983/1950 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2001/4029.
- (c) 1981 p.37.

period when animals may not be moved off premises because of the provisions of article 3(1)(b); and

"veterinary treatment" ("*triniaeth filfeddygol*") includes, in the case of goats, the collection of semen.

Restrictions on the movement of animals

3.-(1) The movement of an animal from any premises is prohibited unless -

- (a) the movement is made under the authority of a licence issued by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector; and
- (b) no sheep, goats or cattle have been moved on to those premises during the previous 6 days, and no pigs have been moved on to those premises during the previous 20 days ("the standstill period").

(2) Notwithstanding paragraph (1), animals may be moved off premises during the standstill period if -

- (a) the movement is one specified in Schedule 1, or
- (b) a permit disapplying the standstill period has been issued by a veterinary inspector.

(3) The standstill period is not triggered by a movement on to premises if it is a movement specified in Schedule 2.

(4) The requirement for a licence in paragraph (1)(a) does not apply to any movement authorised by a licence under article 10 of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002(a) (licences relating to pet pigs).

(5) The requirements of paragraph (1) do not apply to a movement -

- (a) licensed under the Foot-and-Mouth Disease Order 1983(b), or
- (b) to or from any zoo licensed under the Zoo Licensing Act 1981(c).

Restrictions on movements to and from slaughterhouses

4. It is prohibited for any person to -

- (a) S. I. 2002/2303 (W.228) as amended by S. I. 2003/170 (W.30).
- (b) S. I. 1983/1950 as last amended by S. I. 2001/4029.
- (c) 1981 c.37.

- (a) symud unrhyw anifail i ladd-dy ac eithrio at ddibenion ei gigydda o fewn 48 awr iddo gyrraedd yno; neu
- (b) derbyn unrhyw anifail o ladd-dy oni wneir hynny, yn achos unrhyw anifail heblaw mochyn, o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.

Grwpiau meddiannaeth unigol

5. Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi setiau o safleoedd i fod yn grwpiau meddiannaeth unigol os yw'r naill neu'r llall wedi'i fodloni bod y safleoedd yn gysylltiedig â'i gilydd o ran eu rheolaeth.

Trwyddedau, caniatadau ac awdurdodiadau

6.-(1) Rhaid i unrhyw drwydded, caniatâd, neu awdurdodiad o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, caiff fod yn gyffredinol neu'n benodol, yn ddarostyngedig i amodau, a gellir ei amrywio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig unrhyw bryd-

- (a) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn achos trwydded, caniatâd neu awdurdodiad a ddyroddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd o unrhyw fath;
- (b) gan arolygydd milfeddygol, yn achos trwydded neu ganiatâd a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu unrhyw un o arolygwyr eraill yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (c) gan un o arolygwyr yr Ysgrifennydd Gwladol (ac eithrio arolygydd milfeddygol), yn achos trwydded a ddyroddwyd gan unrhyw arolygydd o'r fath; neu
- (ch) gan un o arolygwyr awdurdod lleol, yn achos trwydded a ddyroddwyd gan un o arolygwyr yr awdurdod lleol hwnnw.

(2) Wrth benderfynu pa un ai i ddyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a) neu ganiatâd o dan erthygl 3(2) mae'n rhaid i arolygydd neu arolygydd milfeddygol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Trwyddedau a ddyroddir yn yr Alban neu yn Lloegr

7. Bydd trwydded a ddyroddir gan yr awdurdod cymwys yn yr Alban neu yn Lloegr at ddibenion symud anifeiliaid yn weithredol yng Nghymru fel pe buasai wedi'i dyroddi o dan y Gorchymyn hwn.

- (a) move any animal to a slaughterhouse save for the purpose of slaughter within 48 hours of its arrival there; or
- (b) receive any animal from a slaughterhouse unless, in the case of any animal other than a pig, under the authority of a licence issued by a veterinary inspector.

Sole occupancy groups

5. The National Assembly for Wales and the Secretary of State may authorise sets of premises as sole occupancy groups if either of them is satisfied that the premises are linked in terms of their control.

Licences, permits and authorisations

6.-(1) Any licence, permit or authorisation under this Order must be in writing, may be general or specific, may be subject to conditions and may be varied, suspended or revoked at any time by notice in writing issued -

- (a) by the National Assembly for Wales or the Secretary of State, in the case of a licence, permit or authorisation issued by the National Assembly for Wales or Secretary of State or an inspector of any kind;
- (b) by a veterinary inspector, in the case of a licence or permit issued by a veterinary inspector or any other inspector of the Secretary of State;
- (c) by an inspector of the Secretary of State (other than a veterinary inspector), in the case of a licence issued by any such inspector; or
- (d) by an inspector of a local authority, in the case of a licence issued by an inspector of that local authority.

(2) In deciding whether to issue a licence under article 3(1)(a) or a permit under article 3(2) an inspector or a veterinary inspector shall comply with any instructions issued by the National Assembly for Wales or the Secretary of State.

Licences issued in Scotland or England

7. A licence issued by the competent authority in Scotland or England for the purpose of the movement of animals operates in Wales as if it had been granted under this Order.

Hysbysiadau sy'n gwahardd symud o dan y drwydded gyffredinol

8.-(1) Pan fo trwydded gyffredinol wedi'i dyroddi o dan erthygl 3(1)(a), caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiad yn gwahardd-

- (a) symud o dan awdurdod y drwydded honno unrhyw anifail o unrhyw safle a bennir yn yr hysbysiad; neu
- (b) unrhyw berson a bennir yn yr hysbysiad rhag symud anifeiliaid o dan awdurdod y drwydded honno naill ai'n gyffredinol neu i unrhyw safle a bennir yn yr hysbysiad neu oddi yno.

(2) Ni chaiff hysbysiad ei gyhoeddi o dan baragraff (1) ond ar gyngor arolygydd, y mae'n rhaid iddo fod o'r farn-

- (a) na chydymffurfiwyd â darpariaethau'r Gorchymyn hwn neu'r drwydded gyffredinol mewn perthynas ag anifeiliaid a symudwyd i'r safle dan sylw neu oddi yno, neu mewn perthynas â symud unrhyw anifeiliaid eraill, os y person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo yw ceidwad yr anifeiliaid hynny neu os bu'n geidwad yr anifeiliaid hynny ar unrhyw adeg, a
- (b) bod angen cyflwyno hysbysiad i atal y posibilrwydd y bydd clefydau yn lledaenu.

(3) Bydd hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (1)(a) yn cael ei gyflwyno i feddiannydd pob un o'r safleoedd a bennir yn yr hysbysiad ac mewn unrhyw ddull arall y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn tybio ei bod yn briodol dwyn yr hysbysiad i sylw'r personau y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt.

(4) Caiff hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff (1)(b) ei gyflwyno i'r person a gaiff ei wahardd gan yr hysbysiad rhag symud anifeiliaid ac ar feddiannydd unrhyw safle a enwir wrth ei enw yn yr hysbysiad.

(5) Bydd hysbysiad yn ysgrifenedig, a chaiff fod yn ddarostyngedig i amodau a chaiff ei ddiwygio, ei atal dros dro, neu ei ddirymu ar unrhyw adeg gan hysbysiad arall gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Trwyddedau penodol

9.-(1) O ran anifail a symudir o dan drwydded benodol-

- (a) rhaid iddo gael ei symud ar hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael i'r gyrchfan a bennir yn y drwydded, a
- (b) rhaid i'r drwydded fynd gydag ef ar hyd y daith.

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am unrhyw anifail a symudir o dan drwydded arbennig, os myn cwnstabl

Notices prohibiting movement under a general licence

8.-(1) Where a general licence has been issued under article 3(1)(a), the National Assembly for Wales or the Secretary of State may issue a notice prohibiting -

- (a) the movement under the authority of that licence of any animal from any premises specified in the notice; or
- (b) any person specified in the notice from moving animals under the authority of that licence either generally or to or from any premises specified in the notice.

(2) A notice may only be issued under paragraph (1) on the advice of an inspector, who must be of the opinion that -

- (a) the provisions of this Order or of the general licence are not or have not been complied with in relation to animals moved to or from the premises in question or in relation to the movement of any other animals of which the person on whom the notice is to be served is or has at any time been the keeper, and
- (b) the service of a notice is necessary to prevent a possible spread of disease.

(3) A notice issued under paragraph (1)(a) must be served on the occupiers of each of the premises specified in the notice and in any other way that the National Assembly for Wales or the Secretary of State think fit to draw the notice to the attention of persons affected by it.

(4) A notice issued under paragraph (1)(b) must be served on the person prohibited from moving animals by the notice and on the occupiers of any premises individually named in the notice.

(5) A notice must be in writing, may be subject to conditions and may be amended, suspended or revoked at any time by further notice by the National Assembly for Wales or the Secretary of State.

Specific licences

9.-(1) An animal moved under a specific licence must -

- (a) be moved by the most direct route available to the place of destination specified in the licence, and
- (b) be accompanied throughout the movement by the licence.

(2) The person in charge of any animal moved under a specific licence must, on demand made by a

neu arolygydd neu unrhyw un arall o swyddogion yr Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod lleol hynny-

- (a) dangos y drwydded;
- (b) caniatáu i gopi ohoni neu o ddarn ohoni gael ei wneud; ac
- (c) os gofynnir hynny iddo, roi ei enw a'i gyfeiriad.

(3) Rhaid i bob anifail a symudir o dan awdurdod trwydded o dan y Gorchymyn hwn gael ei gadw ar wahân i unrhyw anifail nas symudir o dan awdurdod y drwydded honno, a hynny drwy gydol y symud.

(4) Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded benodol, yna, onid yw'r drwydded yn darparu fel arall, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwy iddo-

- (a) sicrhau y rhoddir y drwydded iddo ef neu i'w gynrychiolydd cyn caniatáu i'r anifeiliaid gael eu dadlwytho; a
- (b) cadw'r drwydded am chwe mis a'i dangos i arolygydd os gofynnir am ei gweld.

Trwyddedau cyffredinol

10. Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded gyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gan y person sy'n symud yr anifeiliaid ddogfen symud, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwy iddo-

- (a) sicrhau y rhoddir iddo ef neu i'w gynrychiolydd y copi uchaf o'r ddogfen symud cyn caniatáu dadlwytho'r anifeiliaid;
- (b) llenwi'r copi uchaf i ddangos ei fod ef wedi cael yr anifeiliaid, llofnodi'r copi, a'i anfon i'r awdurdod lleol yn ddi-oed; ac
- (c) ar ôl ei llenwi cadw copi o'r ddogfen am chwe mis.

Copïau o drwyddedau

11. Pan fydd arolygydd awdurdod lleol yn dyroddi trwydded o dan erthygl 3(1)(a), rhaid iddo gadw copi o'r drwydded am chwe mis.

Cydymffurfio â thrwyddedau, ac yn y blaen.

12. Os bydd unrhyw berson yn methu cydymffurfio â thrwydded, caniatâd, awdurdodiad neu hysbysiad a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn caiff un o swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu arolygydd, drefnu y cydymffurfir ag ef a hynny ar draul y person sy'n methu cydymffurfio.

Glanhau a diheintio

13.-(1) Caiff trwydded a ddyroddir o dan erthygl 3(1)(a), caniatâd a ddyroddir o dan erthygl 3(2), neu

constable or by an inspector or other officer of the National Assembly for Wales, the Secretary of State or of a local authority -

- (a) produce the licence;
- (b) allow a copy or an extract to be taken; and
- (c) if so required, furnish his or her name and address.

(3) Every animal which is moved under the authority of a licence under this Order must be kept separate throughout such movement from any animal which is not being moved under the authority of that licence.

(4) Where animals are moved under a specific licence, then, unless the licence provides otherwise, the occupier of premises which they are moved on to must -

- (a) ensure that he or she or his or her representative is given the licence before allowing the animals to be unloaded; and
- (b) keep the licence for six months and produce it to an inspector on request.

General licences

10. Where animals are moved under a general licence, and that licence requires the person moving the animals to have a movement document, the occupier of premises which they are moved on to must -

- (a) ensure that he or she or his or her representative is given the top copy of the movement document before allowing the animals to be unloaded;
- (b) complete the top copy to indicate that he or she has received the animals, sign it, and send it to the local authority without delay; and
- (c) keep a copy of the completed document for six months.

Copies of licences

11. Where an inspector of a local authority issues a licence under article 3(1)(a), he or she must retain a copy of the licence for six months.

Compliance with licences, etc.

12. If any person fails to comply with a licence, permit, authorisation or notice issued under this Order an officer of National Assembly for Wales or the Secretary of State or an inspector may arrange for it to be complied with at the expense of the person in default.

Cleansing and disinfection

13.-(1) A licence issued under article 3(1)(a), a permit issued under article 3(2) or an authorisation

awdurdodiad o dan erthygl 5, bennu gofynion o ran y gwaith o lanhau a diheintio unrhyw gyfrwng cludo a ddefnyddir ar gyfer symud anifeiliaid ac sy'n ychwanegol at ofynion Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003(a).

(2) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am symud anifeiliaid sicrhau, ac eithrio pan fo'r drwydded, yr awdurdodaeth neu'r caniatâd yn darparu fel arall, y cydymffurfir â'r gofynion sy'n berthnasol i'r gwaith o lanhau a diheintio a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl dadlwytho'r anifeiliaid a, beth bynnag, cyn symud y cyfrwng cludo o'r safle y symudwyd yr anifeiliaid iddo.

(3) Pan symudir anifeiliaid o dan drwydded, rhaid i feddiannydd y safle y symudir hwynt iddo ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau digonol ar gyfer unrhyw waith glanhau a diheintio sy'n ofynnol o dan y drwydded.

Newid meddiannaeth safleoedd

14.-(1) Os, pan fydd ei hawl meddiannaeth dros unrhyw safle yn dod i ben, bydd perchennog unrhyw anifail ar y safle hwnnw yn methu ei symud o'r safle hwnnw oherwydd unrhyw gyfyngiad a osodir gan y Gorchymyn hwn neu oddi tano, mae'n rhaid i'r person sydd â'r hawl i feddiannu'r safle hwnnw-

- (a) rhoi i berchennog yr anifail hwnnw ac unrhyw berson a awdurdodir ganddo i'r pwrpas, yr holl gyfleusterau hynny y gallai'r perchennog yn rhesymol ofyn amdanynt ac a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer bwydo, tendio neu ddefnyddio'r anifail hwnnw mewn ffordd arall (gan gynnwys ei werthu); neu
- (b) pan nad yw perchennog yr anifail hwnnw'n gallu manteisio ar y cyfleusterau hynny, cymryd yr holl gamau o'r fath y gallai fod eu hangen i sicrhau bod yr anifail yn cael ei fwydo, ei dendio a'i gadw'n iawn.

(2) Bydd darpariaethau paragraff (1) yn dal i fod yn gymwys hyd nes bydd cyfnod o 7 diwrnod wedi mynd heibio ers y dyddiad y bydd unrhyw gyfyngiadau ar symud yr anifail o'r safle yn peidio â bod yn gymwys, ac mae perchennog yr anifail yn atebol am dalu i'r person sy'n darparu unrhyw gyfleusterau neu borthiant, sy'n tendio neu fel arall yn cadw'r anifeiliaid, yn unol â'r darpariaethau hynny, y symiau hynny, yn dâl ac yn ad-daliad o dreuliau, ag a allai fod yn gyfiawn ac yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau.

Gorfodi

15. Mae'r Gorchymyn hwn i gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Dirymu

16. Dirymir y canlynol-

(a) O.S. 2003/482 (Cy.68).

under article 5 may specify requirements for the cleansing and disinfection of any vehicle used for moving animals additional to the requirements of the Transport of Animals (Cleansing and Disinfection) (Wales) Order 2003(a).

(2) The person responsible for moving animals must ensure, except where the licence, authorisation or permit provides otherwise, that all the requirements relating to cleansing and disinfection are met as soon as possible after the animals have been unloaded and, in any case, before the vehicle is moved from the premises to which the animals have been moved.

(3) Where animals are moved under a licence, the occupier of the premises which they are moved on to must provide adequate facilities, equipment and materials for any cleansing and disinfection required by the licence.

Change of occupation of premises

14.-(1) Where, on the termination of his or her right of occupation of any premises, the owner of any animal on those premises is unable to remove it from those premises by reason of any restriction imposed by or under this Order, the person entitled to the occupation of those premises must -

- (a) afford the owner of that animal and any person authorised by him or her for the purpose, all such facilities as may be necessary for feeding, tending or otherwise using that animal (including selling it) as the owner may reasonably require; or
- (b) where the owner of that animal is unable or unwilling to avail himself of such facilities, take all such steps as may be necessary to ensure that the animal is properly fed, tended and kept.

(2) The provisions of paragraph (1) continue to apply until the expiration of a period of 7 days from the date on which any restriction on the movement of the animal off the premises ceases to apply and the owner of the animal is liable to pay to the person who affords any facilities or feeds, tends or otherwise keeps that animal, in accordance with those provisions, such sums by way of remuneration and reimbursement of expenses as may be just and reasonable in all the circumstances.

Enforcement

15. This Order is to be enforced by the local authority or the Secretary of State.

Revocations

16. The following are revoked -

(a) S. I. 2003/482 (W.68).

- (a) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(a);
- (b) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro)(Cymru)(Rhif 2) (Diwygio) 2002(b);
- (c) Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003(c).

- (a) The Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002(a);
- (b) The Disease Control (Interim Measures) (Wales) (No.2) (Amendment) Order 2002(b);
- (c) The Disease Control (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2003(c).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

3 Mawrth 2003

3rd March 2003

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

3 Mawrth 2003

3rd March 2003

Whitty

Is-ysgrifennydd Seneddol Adran yr Amgylchedd,
Bwyd a Materion Gwledig

Parliamentary Under-Secretary of State, Department
for Environment, Food and Rural Affairs

(a) O.S. 2002/2304 (Cy.229).

(b) O.S. 2002/2480 (Cy.243).

(c) O. S. 2003/168 (Cy.28).

(a) S. I. 2002/2304 (W.229).

(b) S. I. 2002/2480 (W.243).

(c) S. I. 2003/168 (W.28).

ATODLEN 1

Erthygl 3(2)(a)

Symud o safleoedd a ganiateir yn ystod y cyfnod segur

Symud anifeiliaid ar gyfer triniaeth filfeddygol.

1.-(1) Symud anifail i fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol.

(2) Symud anifail o fan lle y rhoddir triniaeth filfeddygol iddo ar yr amod nad yw'r anifail wedi dod i gysylltiad ag anifeiliaid eraill tra oedd yn y fan lle y rhoddir triniaeth.

(3) Symud anifail i labordy lle y gwneir profion diagnostig arno i gadarnhau a effeithiwyd ar yr anifail gan glefyd neu a ydyw wedi dod i gyffyrddiad â chlefyd.

Symud anifeiliaid i'w cigyddu

2. Symud anifail yn uniongyrchol i ladd-dy.

3. Symud mochyn i farchnad ar gyfer moch y bwriedir iddynt gael eu cigyddu'n syth.

4. Symud anifail i ganolfan gasglu ar gyfer anifeiliaid y bwriedir iddynt gael eu cigyddu'n syth, ar yr amod-

(a) na ddefnyddiwyd safle'r ganolfan gasglu ar yr un diwrnod ar gyfer sioe neu arddangosfa neu ar gyfer gwerthiant neu fasnach anifeiliaid ac eithrio anifeiliaid i'w cigyddu'n syth, a

(b) y symudir yr holl anifeiliaid a symudwyd i'r ganolfan gasglu oddi yno'n syth i ladd-dy.

Symud anifail ar gyfer ffrwythloni artiffisial

5. Symud gwartheg neu foch i ganolfan ffrwythloni artiffisial.

6. Symud defaid neu eifr i ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod eu bod wedi eu hynysu oddi wrth bob anifail arall am 6 diwrnod cyn ymadael.

Anifeiliaid i'w hallforio

7. Symud anifail i'w allforio yn uniongyrchol i ganolfan gasglu neu ganolfan gynnull a gymeradwywyd o dan reoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynnyrch Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000 cyn ei allforio.

Symud o fewn grŵp meddiannaeth unigol

8. Symud anifail rhwng safleoedd mewn grŵp meddiannaeth unigol.

SCHEDULE 1

Article 3(2)(a)

Movements off premises which are permitted during the standstill period

Movement for veterinary treatment, etc.

1.-(1) The movement of an animal to a place for veterinary treatment.

(2) The movement of an animal from a place for veterinary treatment provided the animal has not come into contact with other animals while at the place of treatment.

(3) The movement of an animal to a laboratory for diagnostic tests to be carried out to ascertain whether the animal is affected by or has been exposed to a disease.

Movement for slaughter

2. The movement of an animal direct to a slaughterhouse.

3. The movement of a pig to a market for pigs intended for immediate slaughter.

4. The movement of an animal to a collecting centre for animals intended for immediate slaughter, provided that -

(a) the collecting centre premises have not been and will not be used on the same day for a show or exhibition or for the sale or trading of animals otherwise than for immediate slaughter; and

(b) all animals moved to the collecting centre are moved from there direct to a slaughterhouse.

Movement for artificial insemination

5. The movement of cattle or pigs to an artificial insemination centre.

6. The movement of sheep or goats to an artificial insemination centre provided they have been isolated from all other animals for 6 days before departure.

Animals for export

7. The movement of an animal for direct export or to a collecting centre or assembly centre approved under regulation 12(2) of the Animal and Animal Products (Import and Export) (England and Wales) Regulations 2000 prior to such export.

Movement within a sole occupancy group

8. The movement of animals between premises in a sole occupancy group.

Tir comin

9.-(1) Symud anifail rhwng tir y mae gan berchennog neu geidwad yr anifail hawl gofrestredig i gomin arno ac -

- (a) safle sydd ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae hawl gofrestredig i gomin yn cael ei harfer fel rheol mewn perthynas ag ef; neu
- (b) safle sydd ym meddiannaeth unrhyw berson arall y mae ganddo hawl gofrestredig i gomin dros y tir hwnnw, sy'n cael ei harfer fel rheol mewn perthynas â'r tir hwnnw.

(2) Mae symud anifail rhwng safle, sydd ym meddiannaeth perchennog neu geidwad yr anifail ac y mae hawl gofrestredig i gomin yn cael ei harfer fel rheol dros y tir, a safle ym meddiannaeth unrhyw berson arall y mae ganddo hawl gofrestredig i gomin dros y tir hwnnw, a bod hawl gofrestredig i gomin y person arall hwnnw'n cael ei harfer fel rheol honno mewn perthynas â'r tir hwnnw.

(3) Yn y paragraff hwn ystyr "hawl gofrestredig i gomin" ("*registered right of common*") yw hawl i gomin sy'n gofrestredig o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965(a).

Symud moch ar gyfer magu, ac yn y blaen

10.-(1) Symud mochyn a fwriedir ar gyfer magu neu besgi yn unol ag erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002.

(2) Symud mochyn a fwriedir ar gyfer magu heblaw yn unol â pharagraff (1) os gosodwyd y mochyn hwnnw mewn cyfleuster ynysu wedi'i gymeradwyo at y diben hwn gan arolygydd milfeddygol a hynny am 20 diwrnod cyn symud y mochyn.

Symud moch i sioeau neu arddangosfeydd

11. Symud mochyn i sioe neu arddangosfa os yw wedi'i ynysu am 20 niwrnod cyn iddo gael ei symud a hynny ar y safle sydd wedi'i gymeradwyo i'r pwrpas gan arolygydd milfeddygol.

Cyfringau cludo sy'n dadlwytho anifeiliaid eraill

12. Symud anifail sydd ar gyfrwng cludo sy'n mynd i safle i ollwng anifeiliaid eraill, ar yr amod nad yw'r anifail wedi gadael y cyfrwng cludo tra bu ar y safle.

Ceirw

13. Symud ceirw oddi ar unrhyw safle.

Common land

9.-(1) The movement of an animal between land over which the owner or keeper of the animal has a registered right of common and -

- (a) premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which the registered right of common is customarily exercised; or
- (b) premises occupied by any other person who has a registered right of common over that land and in relation to which the registered right of common is customarily exercised.

(2) The movement of an animal between premises occupied by the owner or keeper of the animal and in relation to which a registered right of common over land is customarily exercised and premises occupied by any other person who has a registered right of common over that land and in relation to which the registered right of common of that other person is customarily exercised.

(3) In this paragraph "registered right of common" means a right of common registered under the Commons Registration Act 1965(a).

Movement of pigs for breeding, etc.

10.-(1) The movement of a pig intended for breeding or growing in accordance with article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) Order 2002.

(2) The movement of a pig intended for breeding other than in accordance with paragraph (1) if that pig has been placed in an isolation facility approved for this purpose by a veterinary inspector for 20 days prior to the movement.

Movement of pigs to shows or exhibitions

11. The movement of a pig being moved to a show or exhibition if it is isolated for 20 days prior to the movement taking place in premises approved for this purpose by a veterinary inspector.

Vehicles dropping off other animals

12. Movement of an animal which is on a vehicle which enters premises to drop off other animals, provided it has not left the means of transport while on the premises.

Deer

13. The movement of deer off any premises.

(a) 1965 p. 64.

(a) 1965 c. 64.

ATODLEN 2

Erthygl 3(3)

Symud i safleoedd nad ydynt yn sbarduno'r cyfnod segur

Cyrraedd marchnad ac yn y blaen

1. Symud anifail i farchnad, canolfan gasglu, canolfan ffrwythloni artiffisial, sioe neu arddangosfa.

Symud mochyn o dan Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

2. Symud mochyn fel y cyfeirir ato yn erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002.

Symud mochyn at ddibenion magu

3.-(1) Mochyn sy'n cyrraedd y safle a ddarparwyd ar gyfer magu (ac eithrio un a symudir o dan erthygl 8(3)(b) o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002) ar yr amod-

- (a) cyn ei symud, naill ai na fuasai cyfnod segur ar y safle tarddiad, neu fel arall y cawsai'r mochyn ei ynysu am 20 diwrnod cyn ei symud a hynny mewn cyfleuster wedi'i gymeradwyo i'r pwrpas gan arolygydd milfeddygol;
- (b) y'i hynysir tra bydd ar y safle magu (neu am 20 diwrnod, pa gyfnod bynnag yw'r byrraf) mewn cyfleuster ynysu wedi'i gymeradwyo i'r pwrpas gan arolygydd milfeddygol;
- (c) bod unrhyw fochyn a osodir yn y cyfleuster ynysu gyda'r mochyn y daethpwyd ag ef i'r safle at ddibenion magu, wedi bod ar y safle magu am o leiaf 20 diwrnod cyn cael ei osod yn y cyfleuster hwnnw;
- (ch) bod unrhyw fochyn arall a osodir yn y cyfleuster ynysu ar y safle magu gyda'r un y daethpwyd ag ef i'r safle hwnnw yn cael ei ynysu am 20 diwrnod ar ôl i'r mochyn y daethpwyd ag ef i'r safle gyrraedd, neu am 20 diwrnod ar ôl ei ynysu gyda'r mochyn y daethpwyd ag ef i'r safle, pa un bynnag yw'r diweddaraf; a
- (d) bod y sawl sy'n derbyn y mochyn magu yn llofnodi datganiad yn dweud y bwriedir defnyddio'r mochyn i fagu ar y safle hwnnw a'i fod yn ei anfon y datganiad at yr awdurdod lleol yn ddi-oed.

(2) Symud mochyn (ac eithrio un a symudir o dan erthygl 8(3)(b) Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002)

SCHEDULE 2

Article 3(3)

Movements on to premises that do not trigger the standstill period

Arrival at a market, etc.

1. The movement of an animal on to a market, collecting centre, artificial insemination centre, show or exhibition.

Movement of a pig under the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No.2) Order 2002

2. Movement of a pig where that movement is as referred to in article 8(3)(b) of the Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002.

Movement of a pig for breeding purposes

3.-(1) Arrival of a pig for breeding (other than one being moved under article 8(3)(b) of Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) Order 2002) on the breeding premises provided -

- (a) prior to being moved, either there is no standstill period on the premises of departure, or alternatively it has been isolated for 20 days prior to the movement taking place in a facility approved for this purpose by a veterinary inspector;
- (b) it is isolated while on the breeding premises (or for 20 days, whichever is shorter) in an isolation facility approved for this purpose by a veterinary inspector;
- (c) any pig placed in the isolation facility with the pig brought on to the premise for breeding purposes has been on the breeding premises for at least 20 days before being placed in that facility;
- (d) any other pig placed into the isolation facility on the breeding premises with the one brought on to those premises remains in isolation for 20 days after the arrival of the pig being brought into the premises, or for 20 days after being placed into isolation with it whichever is later; and
- (e) the recipient of the breeding pig signs and sends to the local authority without delay a declaration that the pig is intended for breeding on those premises.

(2) Movement of a pig (other than one being moved under article 8(3)(b) of Pigs (Records, Identification and Movement) (Interim Measures) (Wales) (No.2)

sy'n cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o fan yr oedd wedi'i symud iddo ar gyfer magu, ar yr amod-

- (a) y'i hynysir oddi wrth bob anifail arall am 20 diwrnod ar ôl y dyddiad y'i dychwelir, a
- (b) bod meddiannydd y safle y dychwelodd y mochyn ohono ar ôl ei ddefnyddio at ddibenion magu wedi anfon y datganiad sy'n ofynnol ym mharagraff 3(d) uchod at yr awdurdod lleol.

Mochyn sy'n dychwelyd i sioe neu arddangosfa

4. Mochyn sy'n dychwelyd o sioe neu addangosfa i'r safle y cludwyd ef ohono i'r sioe neu'r arddangosfa honno ar yr amod y caiff ei ynysu am 20 diwrnod ar ôl iddo ddychwelyd i'r safle a gymeradwywyd i'r pwrpas hwn gan arolygydd milfeddygol.

Canolfannau ffrwythloni artiffisial

5. Gwartheg sy'n cyrraedd yn ôl ar y safle hwnnw o ganolfan ffrwythloni artiffisial.

6. Moch sy'n cyrraedd yn ôl ar y safle hwnnw o ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod eu bod yn cael eu hynysu oddi wrth bob anifail arall am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd.

7. Defaid neu eifr sy'n cyrraedd yn ôl ar y safle hwnnw o ganolfan ffrwythloni artiffisial ar yr amod-

- (a) eu bod yn cael eu hynysu oddi wrth bob anifail arall am 6 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd; a
- (b) iddynt gael eu hynysu oddi wrth bob anifail arall tra oeddent yn y ganolfan ffrwythloni artiffisial.

Anifeiliaid a fewnforir

8.-(1) Anifail a fewnforir yn cyrraedd y fan lle y mae'n dod i mewn i Gymru.

(2) Symud anifail o'r fan lle y daw i mewn i'r Deyrnas Unedig yn sgil ei fewnforio o Aelod-wladwriaeth arall.

Symud o fewn grŵp meddiannaeth unigol

9. Symud anifail rhwng safleoedd mewn grŵp meddiannaeth unigol.

Cyfrngau cludo sy'n casglu anifeiliaid eraill

10. Symud anifail y deuir ag ef i'r safle mewn cyfrwng cludo sy'n casglu anifeiliaid eraill ar yr amod na ddadlwythir yr anifail yn y safle hwnnw.

Cyrraedd ar ôl triniaeth filfeddygol

11. Unrhyw ddefaid, geifr, gwartheg neu foch sy'n dychwelyd i'r safle hwnnw o fan lle y rhoddir triniaeth

Order 2002) which is being returned to those premises from a place to which it had been moved for breeding, provided that -

- (a) it is isolated for 20 days after the date of its return from all other animals, and
- (b) the occupier of the premises from which the pig has returned from breeding has sent the declaration required in paragraph 3(e) above to the local authority.

Return of a pig from a show or exhibition

4. The return of a pig from a show or exhibition to the premises from which it was consigned to that show or exhibition provided that it is isolated for 20 days after its return in premises approved for this purpose by a veterinary inspector.

Artificial insemination centres

5. Arrival of cattle which are being returned to those premises from an artificial insemination centre.

6. Arrival of pigs which are being returned to those premises from an artificial insemination centre provided they are isolated from all other animals for 20 days after their return.

7. Arrival of sheep or goats which are returning from an artificial insemination centre provided -

- (a) they are isolated from all other animals for 6 days after their return; and
- (b) they were isolated from all other animals while at the artificial insemination centre.

Imported animals

8.-(1) The arrival of an imported animal at its point of entry into Wales.

(2) Movement of an animal from its point of entry into the United Kingdom following its import from another member State.

Movement within a sole occupancy group

9. The movement of animals between premises in a sole occupancy group.

Vehicles collecting other animals

10. Movement of an animal brought on to premises in a vehicle to collect other animals provided that the animal is not unloaded at those premises.

Arrival from veterinary treatment, etc.

11. The arrival of sheep, goats, cattle or pigs being returned to those premises from a place for veterinary

filfeddygol neu unrhyw epil y maent wedi esgor arnynt tra oeddent yno ar yr amod, yn achos moch, eu bod wedi'u hynysu oddi wrth anifeiliaid eraill am 20 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd.

treatment or of any offspring to which they have given birth while there provided that, in the case of pigs, they are isolated from other animals for 20 days following their return.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 483 (Cy.69)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 483 (W.69)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Disease Control (Interim
Measures) (Wales) Order 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W86/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090682-9



9 780110 906829